23.12.22

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Gwireddu breuddwydion o ganu gyda Bronwen Lewis

Os fyddech chi'n cael y cyfle i rannu llwyfan gydag unrhyw un, pwy fydden nhw? Ydi, mae Canu Gyda Fy Arwr yn ôl! Mae'r canwr Rhys Merion wedi bod yn ddigon lwcus i gael canu gyda rhai o enwau mawr y byd cerddorol, ac yn y gyfres **Canu Gyda fy Arwr**, mae o am roi'r un profiad i eraill.

Gyda Rhys wrth y llyw yn teithio i bob cwr o Gymru - a thu hwnt - i wireddu breuddwydion pobl i ganu gyda'u harwyr cerddorol, mae hon yn raglen llawn hwyl gyda digon o dynnu coes, ambell ddeigryn a lot o sypreisys!

Yn yr ail bennod o'r gyfres newydd **Canu Gyda fy Arwr**, yr arwr tro yma yw Bronwen Lewis, y gantores a'r gyfansoddwraig talentog o Gastell Nedd. Mae hi hefyd yn enwog ar lein gyda miloedd o ddilynwyr, ac mae ei fideos poblogaidd wedi'u gwylio miliynau o weithiau.

"Fi ffeili credu bo rhywun wedi dewis fi fel arwr!" Meddai Bronwen, "Byddai byth wedi credu yn 28 oed bod rhywun yn galw fi'n arwr!"

Mae'r person cyntaf sydd am ganu gyda Bronwen yn dod o Abertawe. Ac yn wahanol i'r arfer, tro yma, ein arwr sydd wedi dewis rhywun arbennig i ganu gyda hi! Felly, mae'n dipyn o sypreis!

Pan oedd Bronwen yn bymtheg oed, fe roddodd Rhys Evans y gig cyntaf erioed iddi yn Nhafarn y Gwachel, Pontardawe, fel rhan o'i waith gyda Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot. Ac i ddweud diolch iddo am y cyfle a gychwynnodd ei gyrfa a rhoi'r hyder iddi ganu yn Gymraeg, dim ond un lle oedd gan Bronwen mewn golwg i wneud y perfformiad:

"Lle arall ond canol y bydysawd – tafarn y Gwachel!"

Ac yn lwcus iawn, mae Rhys yn barod am yr her!

Yr ail i berfformio gyda Bronwen yw un o'i ffans mwyaf, sef Dorian, sy'n gweithio fel peiriannydd oergelloedd yng Nghaerfyrddin. Cafodd ei enwebu gan ei fos, Eirian Jenkins, oherwydd, yn ôl Eirian, yr unig beth mae o'n gwneud yw siarad amdani!

Mae o wedi dilyn gyrfa Bronwen ers y cychwyn cyntaf, gan gynnwys teithio yr holl ffordd i Gaernarfon i fwynhau un o'i pherfformiadau! Ac ar ôl twyllo Dorian i ddod i'r gwaith, mae o'n cael sypreis mawr iawn i ddarganfod ei fod o am gyd-ganu un o'i chaneuon enwocaf hi, Ti a Fi.

A sut brofiad oedd y cwbl i Dorian?

"Arbennig." Meddai, "Roedd e'n deimlad wy ddim wedi cael yn fy mywyd o'r blaen. Roedd e werth y byd."

Yn y Gogledd mae'r criw nesaf sydd am ganu gyda Bronwen. Mae Côr Lleisiau Llawen yn cwrdd yn Y Felinheli o bob rhan o Wynedd, i ganu ac arwyddo. Un o'r Arweinwyr, Ceri Bostock, sydd wedi enwebu'r côr gan eu bod nhw wrth eu boddau gyda Bronwen Lewis. Mae'r côr hefyd wedi gwirioni gyda'r ffilm The Greatest Showman, felly arwyddo'r gân Dyma Fi yw'r dewis gorau posib ar gyfer y perfformiad arbennig.

Cafodd y côr cynhwysol yma ei sefydlu ychydig cyn y pandemig, gan barhau ar Zoom trwy gydol y cyfnod. Ac mae Ceri, ynghyd â Sian Williams, yn arwain ac yn cyfieithu caneuon er mwyn eu harwyddo.

Sypreis arall i'r côr yw eu bod nhw am gael perfformio'r gân yma gyda Chôr CF1, un o'r corau gorau yng Nghymru. A gweledigaeth Ceri a Sian ydi fod pawb sy'n rhan o'r perfformiad hefyd yn arwyddo – sy'n sialens newydd i CF1 ac i Bronwen!

Ar ôl wythnosau o ymarfer ar lein, mae'n gyfle i'r ddau gôr ymuno â'i gilydd diwrnod cyn y perfformiad mawr. A'r sypreis mwyaf i griw Lleisiau Llawen ydi fod Bronwen hefyd yn ymuno gyda nhw yn yr ymarfer!

Ac ar ddiwedd y rhaglen, cawn fwynhau perfformiad arbennig Bronwen Lewis, Côr Lleisiau Llawen a Chôr CF1 o'r gân bwerus Dyma Fi.

Mae'n brofiad emosiynol a theimladwy i bawb, yn enwedig Bronwen:

"Mae cerddoriaeth yn un peth sy'n clymu ni gyd at ein gilydd, yn cysylltu ni. A heddiw, fi wedi teimlo pa mor lwcus ydw i i gael y swydd fi'n neud."

**Canu Gyda fy Arwr**
**Nos Sul 8 Ionawr 8.00, S4C**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C**

23.12.22

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Making dreams of singing with Bronwen Lewis come true

If you had the chance to share a stage with anyone, who would you choose? Yes, **Canu Gyda Fy Arwr** (Singing With My Hero) is back! Singer Rhys Merion has been lucky enough to be able to perform with some of the biggest names in music, and in the series **Canu Gyda fy Arwr**, he wants to give others the same experience.

With Rhys at the helm traveling all over Wales - and beyond - to make people's dreams of singing with their musical heroes come true, one thing's for sure - this series will be jam-packed with plenty of laughs, a few tears and lots of surprises!

In the second episode of the new series of **Canu Gyda fy Arwr**, the hero this time is the talented singer and songwriter from Neath, Bronwen Lewis. She's also famous online with thousands of followers, and her popular videos have been watched millions of times.

"I can't believe that someone has chosen me as a hero!" Bronwen said, "I would never have believed at the age of 28 that someone would call me a hero!"

The first person who will sing with Bronwen is from Swansea. And different to usual, this time our hero has chosen someone special to sing with! So, it's a bit of a surprise!

When Bronwen was 15 years old, Rhys Evans gave her her first ever gig at the Gwachel pub in Pontardawe, as part of his work with Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot. And to say thank you for the opportunity that started her career and gave her the confidence to sing in Welsh, Bronwen only had one place in mind for the performance:

"Where else but the center of the universe - the Gwachel pub!"

And luckily, Rhys is up for the challenge!

The second to perform with Bronwen is one of her biggest fans, Dorian, who works as a refrigerator engineer in Carmarthen. He was nominated by his boss, Eirian Jenkins, because, according to Eirian, the only thing he does is talk about Bronwen!

He has followed Bronwen's career since the very beginning, including traveling all the way to Caernarfon to enjoy one of her performances! And after tricking Dorian to come to work on his day off, he gets a very big surprise to discover that he will sing along to one of Bronwen's most famous songs, Ti a Fi.

And what was it like for Dorian?

“Special.” He said, "It was a feeling I’ve never had in my life before. It was out of this world.”

The next group that wants to sing with Bronwen is in North Wales. Lleisiau Llawen Choir meet at Y Felinheli from all parts of Gwynedd, to sing and sign. One of the choir leaders, Ceri Bostock, has nominated them as they love Bronwen Lewis. The choir are also big fans of the film The Greatest Showman, so signing the song This Is Me is the best possible choice for their special performance.

This inclusive choir was established just before the pandemic, continuing on Zoom throughout the period. And Ceri, together with Sian Williams, lead and translate songs for the choir to sign.

Another surprise for the choir is that they’ll get to perform this song with CF1 Choir, one of the best choirs in Wales. And Ceri and Sian's vision is that everyone who is a part of the performance also signs - which is a new challenge for CF1 and for Bronwen!

After weeks of online practice, it is an opportunity for the two choirs to join together before the big performance. And the biggest surprise for the Lleisiau Llawen crew is that Bronwen also joins them in the rehearsal!

At the end of the programme, we get to enjoy a very special performance by Bronwen Lewis, Lleisiau Llawen Choir and CF1 Choir of the powerful song This is Me.

Its an emotional experience for everyone, especially Bronwen:

"Music is one thing that joins us all together, that connects us. And today, I've felt how lucky I am to have the job that I do."

**Canu Gyda fy Arwr**
**Sunday 8 January 8.00, S4C**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Cwmni Da production for S4C**